# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2013** |
| Amser: | **09:00 – 11:02** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_03_12_2013&t=0&l=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Dr Ruth Hussey, Chief Medical Officer**<br>**Dr Grant Robinson, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan**<br><br>**David Sissling, Director General for Health and Social Services, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Gofal heb ei drefnu: Ymateb gan Lywodraeth Cymru

2.1 Holodd y Pwyllgor David Sissling, y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Ruth Hussey, y Prif Swyddog Meddygol, a'r Dr Grant Robinson, yr Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal heb ei Drefnu, Llywodraeth Cymru, ynghylch Gofal heb ei drefnu.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd David Sissling i:

- Rannu'r rhestr wirio a ddefnyddir wrth archwilio gofal sylfaenol
- Ymchwilio ymhellach i'r ganran o feddygfeydd sy'n cynnig apwyntiadau ar ôl 17.00,a pha mor aml y digwydd hynny.
- Gwirio'r diffiniad o 'heb ddod i'r apwyntiad'
- Anfon nodyn am yr amserlen ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth 111, a darparu gwybodaeth ddiweddar am y gwasanaeth yn rheolaidd.
- Anfon nodyn am ffigurau'r Ddeoniaeth ar gyfer hyfforddi meddygon teulu.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

3.1 Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt: Llythyr gan Adam Cairns, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (14 Tachwedd 2013)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

9.1 Derbyniwyd y cynnig bod eitemau 4, 5, 6, 7 ac 8 ar yr agenda yn cael eu trafod yn breifat, ynghyd â'r papur ar gyfer eitem 10.

## 5 Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

4.1 Nodwyd yr ymatebion, a dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor bod Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar y mater hwn. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y mater hwn pan fydd canlyniadau'r gwaith hwnnw ar gael.

## 6 Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

5.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb pellach gan Lywodraeth Cymru, a chytunwyd i'w rannu gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 7 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

6.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb pellach gan Lywodraeth Cymru, a chytunwyd i wahodd yr Athro White i'r Pwyllgor i drafod eu pryderon.

## 8 Argyfyngau Sifil yng Nghymru: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

7.1 Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r ymateb boddhaol gan Lywodraeth Cymru.

## 9 Buddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

8.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb pellach gan Lywodraeth Cymru, a chytunwyd i'w rannu gyda'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

## 10 Cyflog Uwch-reolwyr: Trafod y papur dadansoddi

10.1 Nododd y Pwyllgor y memorandwm drafft gan Swyddfa Archwilio Cymru, a bod angen gwneud rhagor o waith ar y papur cyn y caiff ei gyhoeddi.

10.2 Trafododd y Pwyllgor sut yr oedd yn bwriadu gweithio ar yr ymchwiliad hwn.